

Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

RHWYDWAITH CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU: WYTHNOS YMWYBYDDIAETH YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL 2022

Atal Pobl Ifanc sy'n Ymwneud ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
rhag Mynd Ymlaen i Ymwneud â Thrais Difrifol a Throseddu
Cyfundrefnol

WALES SAFER COMMUNITIES NETWORK: ANTI-SOCIAL BEHAVIOUR AWARENESS WEEK 2022

Preventing Young People Involved in Anti-Social Behaviour from
Escalating into Serious Violence and Organised Crime


18/07/2022, 11:30 – 13:00

PECYN SEMINAR PACK

CYNNWYS ▪ CONTENTS

- 1** Rhaglen ▪ Agenda
- 3** Bywgraffiadau Siaradwyr ▪ Speaker Biographies
- 7** Adborth ▪ Feedback
- 8** Gwybodaeth Ychwanegol ▪ Additional Information

#cymunedaumwydiogel
#safercommunities



RHAGLEN

11:30

1. Croeso a Chyflwyniadau

Catherine Jones, Arweinydd Diogelwch Cymunedol Torfaen a Chadeirydd Rhwydwaith Ymarferwyr Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Cymru Gyfan

11:35

2. Prif Siaradwr

Jeff Cuthbert, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gwent ac Arweinydd Plismona Lleol dros Ymddygiad Gwrthgymdeithasol APCC

11:45

3. Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid

James Searle, Llywodraeth Cymru

11:55

4. Cefnogaeth i Ddioddefwyr a Thystion

Claire Keeley a Richard Oxenham, Goleudy

12:10

5. Rhaglen INTACT: Gweithio gyda Phobl Ifanc

Harri Evans-Mason, Heddlu Dyfed Powys

12:25

6. Gweithgarwch Lleol

Sarah Capstick, Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru

12:30

7. Ymagwedd sy'n Ystyriol o Drawma tuag at Bobl Ifanc ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Jo Hopkins, Canolbwynt Cefnogaeth Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod

12:45


8. Panel Cwestiwn ac Ateb

Holl Siaradwyr

12:55

9. Y Camau Nesaf a Chloi

Catherine Jones, Arweinydd Diogelwch Cymunedol Torfaen a Chadeirydd Rhwydwaith Ymarferwyr Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Cymru Gyfan



AGENDA

- 11:30** **1. Welcome and Introductions**
Catherine Jones, Torfaen Community Safety Lead & Chair of the All Wales Anti-Social Behaviour Practitioners Network
- 11:35** **2. Keynote Speaker**
Jeff Cuthbert, Police and Crime Commissioner for Gwent & APCC Local Policing Lead for Anti-Social Behaviour
- 11:45** **3. Youth Justice Blueprint**
James Searle, Welsh Government
- 11:55** **4. Victim and Witness Support**
Claire Keeley & Richard Oxenham, Goleudy
- 12:10** **5. INTACT Programme: Working with Young People**
Harri Evans-Mason, Dyfed Powys Police
- 12:25** **6. Local Activity**
Sarah Capstick, Wales Safer Communities Network
- 12:30** **7. A Trauma Informed Approach to Young People and ASB**
Jo Hopkins, ACE Support Hub
- 12:45** **8. Question and Answer Panel**
All Speakers
- 12:55** **9. Next Steps and Close**
Catherine Jones, Torfaen Community Safety Lead & Chair of the All Wales Anti-Social Behaviour Practitioners Network



BYWGRAFFIADAU SIARADWYR

- **Jeff Cuthbert, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent ac Arweinydd Plismona Lleol CCHTh ar gyfer Ymddygiad Gwrthgymdeithasol**

Etholwyd Jeff i'r Cynulliad am y tro cyntaf yn 2003.

Cyn cael ei benodi'n Ddirprwy Weinidog dros Sgiliau ym mis Mai 2011, bu Jeff yn gwasanaethu fel Cadeirydd Pwyllgor Monitro Rhaglen Cymru gyfan ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol. Sefydlodd a bu'n Gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar yr Amgylchedd Adeiledig, y Grŵp Trawsbleidiol ar Fyw'n Iach, y Grŵp Trawsbleidiol ar Diabetes ac mae'n un o sefydlwyr ac yn gyn-gyd-gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Gwrw a Thafarndai. Roedd hefyd yn aelod o Grŵp Gweithredol Cangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad.


Bu Jeff yn Gadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ac mae wedi bod yn aelod o'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol, y Pwyllgor Menter a Dysgu a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

Ym mis Mai 2013 penodwyd Jeff yn Weinidog Cymunedau a Threchu Tlodi. Daliodd y swydd hon tan fis Medi 2014 ac yn ystod y cyfnod hwnnw cyflwynodd Fesur Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Ym mis Mai 2021 cafodd Jeff ei ailethol fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent. Mae o'n ddeiliad portffolio Plismona Lleol Comisiynwyr Heddlu a Throsedd Cymru ac yn aelod o'r Grŵp Arwain.

- **James Searle, Pennaeth Trosedd a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru**

James yw arweinydd Tîm Trosedd a Chyfiawnder Llywodraeth Cymru. Mae'r tîm Trosedd a Chyfiawnder yn arwain ar y berthynas strategol a gweithredol rhwng Llywodraeth Cymru a budd-ddeiliaid trosedd a chyfiawnder, gan weithio mewn partneriaeth ar faterion fel cyfiawnder ieuenctid, plismona a phrofiannaeth. O ystyried y rhyngwyneb agos rhwng cyfiawnder troseddol a meysydd datganoledig fel tai ac iechyd, yn enwedig o ran atal ac adsefydlu, mae'r tîm yn hwyluso perthynas rhwng arweinwyr i wneud y gorau o'r berthynas waith ac i wella canlyniadau ar gyfer pobl Cymru. Mae'r tîm hefyd yn arwain darpariaeth Cyfiawnder Ieuenctid a Glasbrint Cyfiawnder Merched Llywodraeth Cymru, gan ddatblygu gwaith ar y cyd i gefnogi pobl ifanc a merched yng Nghymru sydd yn y system gyfiawnder neu mewn perygl o ddod i gysylltiad â hi. Mae hyn yn cynnwys prosiectau fel y Ganolfan Breswyl i Ferched a gwaith ar gynlluniau dargyfeiriol ac atal.



BYWGRAFFIADAU SIARADWYR

- **Harri Evans-Mason, INTACT, Cydlynnydd Troseddau Treisgar a Throseddau Cyfundrefnol Difrifol, Heddlu Dyfed Powys**

Ymunodd Harri â Heddlu Dyfed Powys ym mis Awst 2020 ar ôl rheoli a darparu prosiectau amrywiol ar hyd a lled Cymru yn y sector preifat a'r trydydd sector. Astudiodd radd mewn Rheoli Busnes ym Mhrifysgol Abertawe a derbyniodd statws Rheolwr Siartredig gan y Sefydliad Rheoli Siartredig. Mae Harri yn gyfrifol am ymateb yr heddlu a phartneriaid i droseddau treisgar a chyfundrefnol difrifol drwy weithgareddau Atal, Paratoi ac Amddiffyn ar draws ardal Dyfed Powys. Mae hyn yn cynnwys goruchwyllo Rhaglen INTACT, y Tîm Ymyrraeth Gynnar ac Atal, a nifer o brosiectau trawsbynciol gyda phartneriaid.

- **Jo Hopkins, Cyfarwyddwr Rhaglen Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, Cyfiawnder Troseddol ac Atal Trais Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Roedd Jo yn Was Sifil Uwch Llywodraeth y DU, a bu'n gweithio i'r Swyddfa Gartref am ugain mlynedd cyn ymuno ag Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2018 fel Cyfarwyddwr Canolfan Gymorth Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod, gan drawsnewid systemau i atal a lleddfu profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yng Nghymru. Mae ei swydd bresennol yn dod â'r holl gyfrifoldebau hyn at ei gilydd i ddatblygu dull sy'n seiliedig ar drawma ac ymwybyddiaeth o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ar draws gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau a chymdeithasau. Mae Jo ar hyn o bryd yn cwblhau PhD rhan-amser ym Mhrifysgol Aberystwyth ar reolaeth drwy orfodaeth mewn gwrthdaro.



SPEAKER BIOGRAPHIES

- **Jeff Cuthbert, Police and Crime Commissioner for Gwent & APCC Local Policing Lead for Anti-Social Behaviour**

Jeff was first elected to the Assembly in 2003.

Before his appointment as the Deputy Minister for Skills in May 2011, Jeff served as the Chair of the All Wales Programme Monitoring Committee for the Structural Funds. He founded and chaired the Cross-Party Built Environment Group, the Cross-Party Healthy Living Group, Cross-Party Diabetes Group and co-founded and co-chaired the Cross-Party Beer and the Pub Group. He was also a member of the Wales Branch Executive of the Commonwealth Parliamentary Association.

Jeff chaired the Committee on Standards of Conduct and has been a member of the European and External Affairs Committee, the Enterprise and Learning Committee and the Public Accounts Committee.

In May 2013 Jeff was appointed as Minister for Communities and Tackling Poverty. He held this post until September 2014 and during which time introduced the Wellbeing of Future Generations (Wales) Bill.

Jeff was -re-elected to the post of Police and Crime Commissioner for Gwent in May 2021. He currently holds the Local Policing portfolio for the Police and Crime Commissioners in Wales and is a member of the Leadership Group.

- **James Searle, Head of Crime and Justice, Welsh Government**

James leads the Crime and Justice team in Welsh Government. The Crime and Justice team leads on the strategic and operational relationships between the Welsh Government and crime and justice stakeholders, working in partnership in areas such as youth justice, policing and probation. Given the close interface between criminal justice and devolved areas such as housing and health, especially in terms of prevention and rehabilitation, the team facilitates relationships between leads to optimise working relationships and improve outcomes for people in Wales. The team also leads in Welsh Government on the delivery of the Youth Justice and Women's Justice Blueprints, taking forward joint work to support young people and women in Wales both in the justice system or at risk of coming into contact with it. This includes projects such as the Residential Women's Centre and work on diversionary and preventative schemes.



SPEAKER BIOGRAPHIES

- **Harri Evans-Mason, INTACT, Serious Violence and Organised Crime Coordinator, Dyfed Powys Police**

Harri joined Dyfed-Powys Police in August 2020 after managing and delivering projects of various scales across Wales in the third and private sectors. He studied Business Management at Swansea University and was awarded Chartered Manager status by the Chartered Management Institute. Harri is responsible for the police and partner response to Serious Violence and Organised Crime through Prevent, Prepare and Protect activity across the Dyfed-Powys area. This includes overseeing the INTACT Programme, the Early Intervention and Prevention Team and a number of cross-cutting projects with partners.

- **Jo Hopkins, Programme Director for Adverse Childhood Experiences (ACEs), Criminal Justice and Violence Prevention at Public Health Wales**

Jo is a former UK government Senior Civil Servant, Jo worked for the Home Office for twenty years before joining Public Health Wales in 2018 to take on the role of Director of the ACE Support Hub, transforming systems to prevent and mitigate ACEs in Wales. Her current role brings all these responsibilities together to develop an ACE aware, trauma informed approach across public services, communities and society. Jo is currently completing a part time PhD at Aberystwyth University on coercive control in conflict.



ADBORTH ▪ FEEDBACK

**“Diolch Catherine
a’r holl siaradwyr,
digwyddiad
ardderchog,
addysgiadol iawn ac
wedi mwynhau
yn fawr”**

**“Thanks Catherine and
all the speakers,
excellent event, very
informative and really
enjoyed”**

**“Diolch i bawb sydd wedi
cyflwyno a hwyluso
heddiw”**

**“Thanks to all who have
presented and facilitated
today”**

**“Diolch
addysgiadol iawn”**

**“Thank you very
informative”**



Gwybodaeth Ychwanegol ▪ Additional Information

Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â Rhwydwaith Ymarferwyr Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASB) Cymru Gyfan, neu os hoffech gael mwy o wybodaeth am eu gwaith, cysylltwch â ni a byddwn yn ei basio ymlaen i'r Cadeirydd, Catherine Jones
cymunedaumwydiogel@wlga.gov.uk.

I ddarganfod mwy am Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma yr Hyb ACE Cymru, sy'n sefydlu sut mae unigolion, teuluoedd/rhwydweithiau cymorth eraill, cymunedau, sefydliadau a systemau yn ystyried adfyd a thrawma, gan gydnabod a chefnogi cryfderau unigolyn i oresgyn y profiad hwn yn eu bywydau, cliciwch [yma](#).

I ddarllen i fyny ar arferion da ASB sy'n digwydd ledled Cymru, cliciwch [yma](#).

Diolch i bawb a wnaeth mynychu ein seminar a helpu i ddathlu a chefnogi Wythnos Ymwybyddiaeth ASB 2022.

If you're interested in joining the All Wales Anti-Social Behaviour Practitioners Network, or would like to find out more about their work, please get in touch and we will pass it on to the Chair, Catherine Jones
safercommunities@wlga.gov.uk.

To find out more about the ACE Hub Wales' Trauma-Informed Wales Framework, which establishes how individuals, families/other support networks, communities, organisations and systems take account of adversity and trauma, recognising and supporting the strengths of an individual to overcome this experience in their lives, click [here](#).

To read up on ASB good practice taking place across Wales, click [here](#).

Thank you to everyone who attend our seminar and helped celebrate and support ASB Awareness Week 2022.